

DYDD IAU 20

MAE CYNGOR IEUENCTID SIR  
GAERFYRDDIN YN CYFLWYNO

TACHWEDD 2014

# GARTREF, OES CAM-DRIN? TI DDIM AR BEN DY HUN!

ADRODDIAD AR EIN CYNHADLEDD IEUENCTID SY'N YSTYRIED  
CAM-DRIN DOMESTIG A PHERTHNASOEDD IACH

- YN CYNNWYS Y BOBL WYBODUS -

POBL IFANC O BOB RHAN O SIR GAERFYRDDIN

CHRISTOPHER SALMON, COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS;

JANET WEAVER, CYMORTH I FERCHED; DAVID ASTINS, CYNGOR SIR GAERFYRDDIN



[WWW.YOUTHSIRGAR.ORG.UK](http://WWW.YOUTHSIRGAR.ORG.UK)



flickr™



# GARTREF, OES CAM-DRIN? TI DDIM AR BEN DY HUN!

## ADRODDIAD CYNHADLEDD IEUENCTID CYNGOR IEUENCTID SIR GAERFYRDDIN 2014

### Y CEFNDIR

Mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn cynnal Cynhadledd Ieuenctid bob blwyddyn mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin er mwyn cael barn pobl ifanc ynghylch materion sydd o bwys i ni ac sy'n effeithio ar ein bywydau heddiw ac yn y dyfodol.

Penderfynom ganolbwyntio ar gam-drin domestig ar gyfer Cynhadledd Ieuenctid eleni yn dilyn ymgynghori ag amrywiaeth o bobl ifanc ledled y sir. Gofynnwyd i bobl ifanc pa faterion oedd bwysicaf iddynt ac yn effeithio arnynt fwyaf o ddydd i ddydd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau hyn yn anffurfiol gan aelodau unigol o Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin a chafwyd adborth ynghylch canfyddiadau'r unigolion hyn mewn cyfarfod yn gynnar yn yr haf. Y ddau bwnc a gafodd eu crybwyll amlaf oedd bwlio a cham-drin domestig. Ar ôl llawer o drafod, penderfynom mai thema ein Cynhadledd Ieuenctid Flynyddol a oedd yn cael ei chynnal am yr unfed tro ar ddeg, fyddai Cam-drin yn y Cartref gan edrych ar bwysigrwydd perthnasoedd iach oherwydd ar hyn o bryd nifer bach o drafodaethau sy'n digwydd ar y pwnc hwn.

Cafodd y gynhadledd ei threfnu i raddau helaeth gan aelodau Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin sef Rebekah Lane, Brittany Bingham, a Kelisha Jones a gafodd eu hethol gan eu cyd-aelodau i ymgymryd â thasgau megis cyfarfod â swyddogion Parc y Scarlets



a Chyngor Sir Caerfyrddin yn ogystal â gweithio ar bosteri a gwybodaeth er mwyn hysbysebu ein cynhadledd.

Cyn y Gynhadledd Ieuenctid, gwnaethom gyfarfod â rhai cynrychiolwyr o Wasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin a derbyn hyfforddiant sylfaenol ynghylch cam-drin domestig er mwyn helpu â'r gwaith o gynllunio'r gynhadledd ac yn fwy penodol, y gweithdai a gynhaliwyd gennym ar y diwrnod. Ar ôl derbyn yr hyfforddiant sylfaenol hwn, roeddem i gyd yn teimlo'n fwy hyderus o ran adnabod y gwahanol fathau o gam-drin domestig yn ogystal â chael gwell dealltwriaeth ynghylch effeithiau cam-drin yn y cartref.

Gwahoddwyd pobl sy'n gwneud penderfyniadau, gwesteion a sefydliadau a oedd â diddordeb mewn Cam-drin Domestig i gefnogi ein cynhadledd er mwyn sicrhau bod barn y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn y gynhadledd yn cael ei chlywed ac yn sgil hynny, bod camau gweithredu'n cael eu cymryd.

# Y GYNHADLEDD

Cynhaliom ein cynhadledd ddydd Iau, 20 Tachwedd i gyd-fynd â Diwrnod Byd-eang Hawliau Plant a oedd yn cael ei gynnal am y 25ain blwyddyn. Cynhaliwyd y gynhadledd ym Mharc y Scarlets, Llanelli a gwnaethom arwain a darparu gweithdai ar gyfer mwy na 150 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o bob cwr o'r sir. Pwrpas y gweithgareddau hyn oedd ehangu dealltwriaeth y bobl ifanc o ystyr cam-drin domestig yn ogystal â chasglu eu sylwadau ynghylch y pwnc.

Roeddem yn hapus dros ben i gael cwmni Mr Christopher Salmon, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys, yn y gynhadledd er mwyn cyflwyno'r brif araith i'r bobl ifanc a'r gwesteion. Y siaradwyr gwadd eraill oedd Janet Weaver o Gymorth i Fenywod Cymru a David Astins o Gyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd sesiwn y bore yn cynnwys gweithdai lle bu pobl ifanc yn cymryd rhan mewn tasgau a thrafodaethau grŵp ynghylch cam-drin domestig ac ystyr cam-drin domestig. Treuliodd y prynhawn mewn trafodaeth fforwm theatr gan Grŵp Theatr Mess up the Mess a fu'n perfformio 3 o olygfeydd ynghylch cam-drin domestig a gafodd eu haddasu o brofiadau bywyd go iawn pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.



# CAM-DRIN DOMESTIG - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Cafodd pobl ifanc gipolwg ar beth yw cam-drin domestig a chyfle i drafod eu hargraffiadau o Gam-drin Domestig. Ar y dechrau, roedd cyfran uchel o'r bobl ifanc a ddaeth i'r gynhadledd yn credu mai 'dyn yn bwrw menyw' oedd cam-drin domestig, ac er eu bod yn gallu adnabod a nodi themâu neu enghreifftiau eraill o gam-drin domestig, dyma'r ateb mwyaf poblogaidd a gafwyd wrth ofyn beth yn eu barn nhw oedd cam-drin domestig. Mae hwn yn amlwg yn bwnc y mae angen delio ag ef ar lefel sylfaenol ac un awgrym ar gyfer mynd i'r afael â hwn oedd dysgu plant oed cynradd ynghylch parch sylfaenol ym mhob perthynas a'r posibilrwydd o roi rhai cyfeiriadau anuniongyrchol at gam-drin domestig.

Roedd hi'n dda gweld bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn gallu nodi'r 5 prif thema o ran cam-drin domestig. Fodd bynnag, doedd dim un o'r bobl ifanc yn gallu diffinio cam-drin domestig.

Dyma'r 5 prif thema o ran cam-drin domestig;

- Cam-drin corfforol
- Cam-drin emosiynol
- Cam-drin rhywiol
- Cam-drin meddyliol
- Ariannol

Diffiniad y Llywodraeth o drais a cham-drin domestig yw:

'Any incident or pattern of incidents of controlling, coercive or threatening behaviour, violence or abuse between those aged 16 or over who are or have been intimate partners or family members regardless of gender or sexuality.'

(Swyddfa Gartref - Mawrth 2013)



# Y PRIF GANFYDDIADAU

Dyma rai o'r prif bryderon a'r dewisiadau a godwyd gan bobl ifanc ynghylch cam-drin domestig a pherthnasoedd iach:

## CLEBRAN A THROSGLWYDDO GWYBODAETH

- Mae myfyrwyr yn deall bod yn rhaid trosglwyddo ychydig o wybodaeth ond mae athrawon yn clebran â'i gilydd.
- Nid yw athrawon yn parchu cyfrinachedd rhwng disgybl/athro oherwydd maent yn clebran yn yr ystafelloedd athrawon.
- Yn amlach na pheidio, mae athrawon yn rhoi gwybod i fyfyrwyr eu bod nhw'n ymwybodol o'u sefyllfa bersonol pan nad oes angen.
- Mae rhai athrawon sydd heb fod angen gwybod yn cael gwybod am fusnes personol myfyrwyr.

## DWEUD WRTH RYWUN AM GAM-DRIN DOMESTIG

- Ni fyddai pobl ifanc yn trafod cam-drin domestig rhwng eu rhieni rhag ofn y cânt eu rhoi mewn gofal ac achosi i'w rhieni wahanu.
- Byddai pobl ifanc yn fwy tebygol o ddweud wrth ffrind neu gyfaill.
- Ni fyddai pobl ifanc yn troi at yr heddlu am gymorth mewn perthynas gamdriniol oherwydd ystyrir hynny fel 'dewis eithafol' ac roedd rhai yn poeni y gallai'r heddlu ddwyn cyhuddiadau yn groes i'w dymuniadau.
- Ni ellir ymddiried ym mhob gweithiwr proffesiynol

## CODI YMWBODIAETH A GWELL CEFNOGAETH

- Dylid dysgu ynghylch cam-drin domestig a pherthnasoedd iach mewn ysgolion cynradd.
- Dylid cael mwy o wasanaethau a chymorth i bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin sy'n cael eu cam-drin neu sy'n gwybod eu bod yn cam-drin ond heb fod yn gwybod sut i roi stop ar y sefyllfa.
- Mae angen rhagor o linellau cymorth sy'n benodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin.
- Mae angen hyfforddiant ar athrawon
- Dylid dargyfeirio mwy o gyllid i lochesau yn Sir Gaerfyrddin.
- Nid yw'r heddlu'n ymateb yn ddigon cyflym.
- Mae angen gwneud mwy o waith i atal y cam-drin yn y lle cyntaf yn hytrach na chanolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc ar ôl iddynt gael eu cam-drin.

## GWNEUD GWAHANIAETH

Y gynhadledd oedd y cam cyntaf er mwyn i ni sicrhau bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau sy'n gallu gweithredu ar y pwnc yn clywed eich barn ac yn rhoi ystyriaeth i'ch sylwadau oherwydd ar ddiwedd y sesiwn, cafwyd sesiwn adborth lle'r oedd pobl ifanc yn gallu siarad yn uniongyrchol â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch eu barn ar gam-drin domestig a'r hyn y gellid ei wneud er mwyn gwella gwasanaethau. Tynnodd y bobl ifanc sylw at y materion roedden nhw'n teimlo bod angen eu newid er mwyn sicrhau bod llai o bobl ifanc yn cael profiad o gam-drin domestig.

Ar ddiwedd 2014, aethom ni (Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin) i gyfarfod Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin er mwyn rhoi adborth ynghylch y gynhadledd ac i dynnu sylw at brif ganfyddiadau'r adroddiad hwn.

Y gobaith yw y bydd aelodau o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhoi ystyriaeth i farn a sylwadau pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ynghylch Gwasanaethau Cam-drin Domestig a materion Diogelu yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Byddwn ni'n cysylltu â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ystod haf 2015 er mwyn cael adborth.

Caiff yr adroddiad hwn ei ddsbarthu i gynifer o Gynghorau Ysgol, Penaethiaid a sefydliadau ag sydd yn bosibl yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn ni hefyd yn defnyddio ein rhwydweithiau i rannu'r adroddiad hwn â Chynghorau/Fforymau Ieuenctid eraill yng Nghymru er mwyn darganfod a yw pobl ifanc ledled Cymru yn wynebu rhai o'r materion sy'n effeithio ar bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.

## CADW MEWN CYSYLLTIAD

Byddwn ni'n postio'r newyddion diweddaraf ac adborth ar ein gwefan lle gallwch gysylltu â ni felly

Ewch i'n gwefan [www.youthsirgar.org.uk](http://www.youthsirgar.org.uk)

Dilynwch ni ar Twitter @Youth\_SirGar

Hoffwch ni ar Facebook - [youthsirgar](https://www.facebook.com/youthsirgar)

